LC1483

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002") a Deddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000") ac maent yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru. Maent yn disodli Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005. Maent yn darparu  fframwaith rheoliadol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol. Mae Pennod 6 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn darparu ar gyfer arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r diffiniad o "asiantaeth fabwysiadu" (*"adoption agency"*) yn cyfeirio at adran 2(1) o Ddeddf Plant 1989, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at fabwysiadu yn yr adran honno, sy'n delio â chyfrifoldeb rhieni. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mewn nifer o achosion, rhoddir y rhif paragraff (1) i'r prif baragraff yn y testun Saesneg. Nid oes angen hyn os nad oes ail baragraff. Mae'r testun Cymraeg fel arfer yn gywir. Yn yr un modd, mae i reoliad 7(4) is-baragraff (a), ond nid (b), felly nid oes angen (a). Mae hyn yn digwydd yn y testun Cymraeg a Saesneg.  [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae'r cyfeiriad at adran 20 o Ddeddf 2002 yn wahanol yn nhestun Saesneg rheoliad 6(g) a'r testun Cymraeg cyfatebol 6(e).  [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae un enghraifft o iaith ryw-benodol yn parhau yn y testun Saesneg - "him" ym mharagraff 5 o Atodlen 2. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mae'r cyfeiriadau at adran 114 a 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997 ym mharagraff 2 o Atodlen 3 yn anghywir. Mae'r darpariaethau hynny wedi'u diddymu a'u disodli. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

**Sylwadau**
Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y rheoliadau am nifer o bwyntiau yn ymwneud â sillafu, fformadu a throednodiadau hefyd, i'w cywiro wrth eu cyhoeddi.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**13 Mawrth 2007**